Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol

18 Hydref 2019

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i'r newid yng nghyfansoddiad Cymru.

Rydym yn croesawu ichi gyhoeddi eich datganiad ysgrifenedig *Addoedi Senedd y DU – achos cyfreithiol* ar 18 Medi 2019, a oedd yn cynnwys eich sylwadau ysgrifenedig i'r Goruchaf Lys.

Fe wnaethoch ymrwymo i roi gwybod eich barn ynglŷn â'r ffyrdd y gellid diffinio "yn groes i'r arfer" yng nghyd-destun Confensiwn Sewel. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r materion hyn yn ei dogfen *Diwygio ein hundeb: cydlywodraethu yn y DU,* ond byddem yn croesawu cael unrhyw wybodaeth bellach sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Yn ystod y sesiwn, fe wnaethoch ddweud:

> "We came to an inter-governmental agreement, as you know, and that's been the basis of ensuring that our consent as an Assembly has been an integral part of that process. (...) [Cofnod y Trafodion, paragraff 50]
>
> "..that agreement (...) has laid a foundation to ensure that that process is a process that we as an Assembly do have a voice in, and we as a Government also have a voice in." [Cofnod y Trafodion, paragraff 50]
>
> "... that principle of having the Assembly's consent is at the heart of the inter-governmental agreement itself." [Cofnod y Trafodion, paragraff 113]

Fel y gwyddoch, ni wnaeth y Cynulliad na'i bwyllgorau graffu ar y cytundeb rhynglywodraethol cyn iddo gael ei gytuno. Cafodd ei negodi a'i gytuno rhwng llywodraethau.

Hoffem gael eglurder ynghylch nifer o faterion a godwyd yn ystod y sesiwn ynghyd â rhywfaint o wybodaeth ychwanegol, yn enwedig o ran y berthynas rhwng defnyddio cytundebau a chydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

C1: A allwch chi egluro sut y mae'r cytundeb rhynglywodraethol wedi bod yn sail i sicrhau y bu cydsyniad y Cynulliad yn rhan annatod o sicrhau y gall ein llyfr statud weithio'n iawn?

C2: Pam mae cytundebau rhynglywodraethol yn briodol ar gyfer delio â deddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei phasio gan ddeddfwrfeydd?

C3: O ran Bil Amaethyddiaeth y DU a'n hystyriaeth o femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cytundeb â Llywodraeth y DU. Mae ein hadroddiad ar yr **ail femorandwm cydsyniad deddfwriaethol** wedi mynegi pryder ynghylch y dull a ddefnyddiwyd. Yn eich barn chi, a ddylai cytundebau o'r fath hefyd fod yn destun cydsyniad ffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn y dyfodol?

C4: Pa risgiau sy'n gysylltiedig â chytundebau rhynglywodraethol o ystyried nad ydyn nhw'n rhwymo'n gyfreithiol, a sut y gall Llywodraeth Cymru geisio amddiffyn setliad datganoli Cymru pe bai gwahanol lywodraethau yn diystyru'r cytundebau hyn yn y dyfodol?

C5: Pa mor gynaliadwy yw'r defnydd o gytundebau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin dros y tymor hwy? Os gall llywodraethau newydd y dyfodol ddiystyru neu derfynu fframweithiau cyffredin anneddfwriaethol, sut mae hyn yn ffordd briodol ymlaen? Byddai'n ddefnyddiol pe baech yn cadarnhau y bwriedir i fframweithiau cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol fod yn ddatrysiad tymor hir.

C6. Sut mae defnyddio cytundebau rhynglywodraethol a fframweithiau cyffredin yn effeithio ar gymhlethdod y setliad datganoli i ddinasyddion?

C7: Mae o leiaf 20 achlysur pan fydd Llywodraeth y DU wedi diwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig trwy ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018, ac mae hyn yn cael ei wneud (bron bob amser) gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, ond heb gydsyniad ffurfiol y Cynulliad Cenedlaethol.

(i) Byddem yn ddiolchgar am eich barn ar oblygiadau'r dull hwn i unrhyw achosion o ddiwygio Confensiwn Sewel yn y dyfodol.

(ii) Sut mae'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru o beidio â chyflwyno cynigion cydsyniad offeryn statudol priodol yn gyson â chynnig 5 o *Diwygio ein Hundeb*.

Yn gywir,

Mick Antoniw AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English